


Cyflawni Proffwydoliaethau

Wyth diwrnod wedi iddo gael Ei eni, rhoddwyd yr enw Iesu i'r baban. Cyflwynodd Joseff a Mair Ef i Dduw yn y Deml, yn unol â chyfraith Moses. Roedd dau o bobl arbennig iawn yno: Simeon, dyn cyfiawn, ac Anna, proffwydes. Roedden nhw'n gwybod beth oedd addewidion Duw ac roeddent yn aros am y Meseia. Pan welon nhw'r baban, roedden nhw'n gwybod mai Fe oedd yr un roedden nhw'n aros amdano. Roedden nhw'n hapus iawn i'w weld.



“Tyfodd y plentyn yn fachgen cryf a doeth iawn, ac roedd hi'n amlwg bod ffafr Duw arno.” Luc 2:40

Allwch chi ddod o hyd i'r ffordd i'r Deml?



Pam fod Joseff a Mair wedi dod
â'r baban Iesu i'r Deml ac yntau
mor ifanc?



Gwers 5

Cyflawni Proffwydoliaethau

Testun y Beibl: Luc 2:21-40

Adnod allweddol: Luc 2:40

Pwrpas: bydd y plant yn deall beth ddigwyddodd pan aeth Joseff a Mair â'r baban Iesu i'r Deml a sut y cafodd proffwydoliaethau Simeon eu cyflawni.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

GWERSI A GWEITHGAREDDAU

Gwers

Wedi i'r plant orffen y dudalen liwio, bydd yr athro/athrawes yn trafod cyflawni proffwydoliaethau o'r Beibl ar ffurf dweud stori, gan ddefnyddio Luc 2:21-40 yn destun.

Awgrym:

Gellir defnyddio gwahanol fathau o ddweud stori er mwyn dal sylw'r plant. Ar gyfer y grwpiau ieuengach, un ffordd o ddweud stori yw defnyddio'r dudalen liwio neu Feibl â lluniau lliwiau llachar, gan bwyntio at bob person wrth iddyn nhw siarad. Mae goslef y llais yn bwysig iawn wrth ddweud stori. Beth am amywio'ch llais ar gyfer pob cymeriad: llais uwch, tawelach, syndod, hapus ac yn y blaen. Mae gwahanol leisiau am ddenu sylw plant.

Yn y Beibl, cawn glywed am ddau o bobl arbennig a gadarnhaodd y proffwydoliaethau am eni'r Gwaredwr.

Pan ddaethpwyd â'r baban Iesu i'r Deml er mwyn enwaedu, arfer gan yr Iddewon yn unol â Chyfraith Moses, roedd dyn o'r enw Simeon yno. Roedd yn ddyn sanctaidd gerbron Duw. Roedd Ysbryd Duw ar Simeon ac roedd yn aros am y Meseia. Dywedodd Ysbryd yr Arglwydd wrtho na fyddai'n marw nes iddo weld y Meseia. Felly, pan welodd y baban Iesu, cymerodd ef i'w freichiau a'i fendithio gan ddweud, "O Feistr Sofran! Gad i mi, dy was, bellach farw mewn heddwch! Dyma wnest ti ei addo i mi – dw i wedi gweld yr Achubwr gyda'm llygaid fy hun. Rwyf wedi'i roi i'r bobl i gyd; yn olau er mwyn i genhedloedd eraill allu gweld, ac yn rheswm i bobl Israel dy foli di."

Roedd Mair a Joseff wedi rhyfeddu wrth glywed ei eiriau. Yna bendithiodd Simeon y rhieni, gan siarad am y plentyn a dweud, "Bydd y plentyn yma yn achos cwmp i lawer yn Israel ac yn fendith i eraill. Bydd yn rhybudd sy'n cael ei wrthod, a bydd yr hyn y mae pobl yn ei feddwl go iawn yn dod i'r golwg."

(Cyfeiriwch at y digwyddiadau ddechrau gweinidogaeth yr Iesu ar y ddaear pan gafodd yr Offeiriad, y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion eu synnu gan eiriau'r Gwaredwr a'i fod yn treulio cymaint o amser gyda'r tlodion a'r bregus.)

Yna dywedodd Simeon wrth Mair, "A byddi di'n dioddef hefyd, fel petai cleddyf yn trywanu dy enaid di." (Mae hyn yn cyfeirio at ddioddefaint Mair wrth weld ei mab yn cael ei groeshoelio.)

Roedd proffwydes yn y Deml hefyd. Roedd yn 84 mlwydd oed a bob amser yn gweddïo ac yn ymrydïo yno. Pan welodd y baban Iesu, dechreuodd foliannu Duw a dweud wrth bawb mai Ef oedd y Gwaredwr.

Gweithgareddau

1. Adnod allweddol.

"Tyfodd y plentyn yn fachgen cryf a doeth iawn, ac roedd hi'n amlwg bod ffafr Duw arno." Luc 2:40

a. Darllenwch yr adnod yn uchel.

b. Eglurwch yr adnod i'r plant. Tynnwch eu sylw at nifer o eiriau allweddol:

- Y plentyn (cyfeirir at y baban Iesu, Mab Duw)
- Tyfodd (roedd fel unrhyw blentyn arall)
- Yn gryf (roedd yn llawn o allu Duw)
- Doeth iawn (roedd ganddo ddoethineb oddi wrth Dduw)
- Roedd hi'n amlwg bod ffafr Duw arno (gwnaeth bethau mawr drwy Ysbryd Duw)

Cymhwyso: Os ydych yn blentyn i Dduw a'ch bod yn tyfu, dod yn gryf ac yn llawn doethineb, mae ffafr Duw arnoch.

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod allweddol drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau: gemau, cystadlaethau ac yn y blaen.

2. Cwestiynau allweddol i'w hadolygu:

- Rhowch enw'r proffwyd a siaradodd am y Meseia'n dod.
- Pam wnaeth y rhieni fynd â'r baban Iesu, oedd mor fach, i'r Deml?
- Pwy wnaeth Mair a Joseff gyfarfod yn y Deml?
- Beth ddywedodd Simeon am y plentyn?
- Sut gafodd geiriau Simeon am y baban a Mair eu cyflawni?
- Beth wnaeth y broffwydes Anna pan welodd hi'r baban Iesu?
- Sut wnaeth y plentyn dyfu?

III. Diwedd glo

Mae'r proffwydoliaethau am y Meseia'n dod wedi cael eu cyflawni. Fel y gwelsom yn y wers heddiw, mae'r Beibl yn cadarnhau hyn. Cafodd geiriau proffwydol Simeon eu cyflawni hefyd. Yn wir, cafodd yr Iesu ei wrthwynebu ar y ddaear a dioddefodd Mair ofid mawr wrth i'r Gwaredwr gael ei groeshoelio, yn union fel y dywedodd Simeon. Mae yna broffwydoliaethau eraill yn y Beibl sydd heb eu cyflawni eto, er enghraifft y rhai sy'n sôn am yr Iesu'n dod yn ôl. Mae pobl yr Iesu'n credu'r broffwydoliaeth hon ac yn aros i'r Arglwydd Iesu ddod eto ar y cymylau a mynd â hwy i'r nefoedd at y Tad. Ydych chi'n credu'r broffwydoliaeth